**Lesley Griffiths AS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

13 Hydref 2020

Annwyl Lesley,

**Fframwaith Cyffredin Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU**

Diolch am ddod i'n cyfarfod ar 8 Hydref i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â Chynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am esboniad pellach a / neu eglurhad ar y canlynol:

**Treth Allyriadau carbon**

1. Yn ystod eich sesiwn dystiolaeth, fe wnaethoch egluro bod trafodaethau ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Treth Allyriadau Carbon yn digwydd ar lefel swyddogol. O ystyried arwyddocâd penderfyniad unochrog gan Lywodraeth y DU i gyflwyno Treth Allyriadau Carbon, pa drafodaethau sydd wedi digwydd ar lefel Weinidogol ar y mater hwn, a beth fu'r canlyniad?

2. A allwch chi egluro a yw Llywodraeth y DU wedi dweud wrthych o dan ba amgylchiadau y byddai'n cyflwyno Treth Allyriadau Carbon yn hytrach na mynd ar drywydd System Masnachu Allyriadau annibynnol y DU, ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig?

3. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o effaith y Dreth Allyriadau Carbon arfaethedig ar osodiadau Cymru ac ar gynnydd Cymru o ran cyrraedd sero net erbyn 2050? Sut mae'r asesiad hwn yn cymharu â'r asesiad ar gyfer System Masnachu Allyriadau (ETS) annibynnol y DU?

4. Beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol wrth lunio Treth Allyriadau Carbon? Sut y byddwch yn ceisio sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn, a bod Cymru yn cael ei chyfran deg o refeniw trethi?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

5. Wrth roi tystiolaeth i’r Pwyllgor, fe wnaethoch ddweud bod penderfyniad gan Lywodraeth y DU i gyflwyno Treth Allyriadau Carbon yn mynd yn llwyr… yn erbyn egwyddorion y fframweithiau cyffredin yr ydym wedi cytuno arnynt yn ôl yn 2017. Beth yw goblygiadau Fframwaith Cyffredin ETS y DU a fethodd, o ran cyflwyno'r Rhaglen Fframweithiau Cyffredin ehangach?

**Refeniw ocsiwn**

6. A allwch chi amlinellu'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran deg o refeniw a gynhyrchir o gyfranogiad y DU yn ETS yr UE?

7. A allwch chi gadarnhau mai creu Cronfa Datgarboneiddio Diwydiannol y DU yw'r dull a ffefrir gennych o hyd i ailgylchu refeniw a gynhyrchir gan ETS y DU? Os na, beth sydd wedi achosi ichi newid eich safbwynt, a beth yw'r dull newydd a ffefrir gennych?

8. Pa drafodaethau, os o gwbl, a gawsoch gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyfran Cymru o refeniw ocsiwn sy’n cael ei ddychwelyd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru i ariannu ei blaenoriaethau gwariant?

**Lliniaru gollyngiadau carbon**

9. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried cyflwyno dull o addasu ffiniau carbon fel dewis arall yn lle dyrannu lwfansau di-dâl i fynd i'r afael â'r risg o ollwng carbon. Beth yw eich barn am hyn? Pa ystyriaeth, os o gwbl, a roddwyd i sut y gallai dull o'r fath weithio yng nghyd-destun ETS annibynnol neu gysylltiedig y DU?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn **30 Hydref 2020, fan bellaf.**

Yn gywir,



**Mike Hedges AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.